

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF

Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian. Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX
Brynhawn Iau, 15 Rhagfyr 2016 am 2.00pm

Dolen gyswllt: Hannah Williams (Rhif ffôn 01443 424062)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn 5pm ar ddydd Mawrth 13 Rhagfyr 2016. Mae hawl gan Gynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd i annerch yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, ffoniwch Swyddfa'r Cabinet ar 01443 424062 neu anfonwch e-bost i Cabinet@rctcbc.gov.uk

MATERION I'W TRAFOD

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Côt Ymddygiad y Cyngor.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2016 yn rhai cywir.

3. RHAGLEN WAITH Y CABINET:

Derbyn adroddiad Ysgrifennydd i'r Cabinet sy'n rhoi'r rhestr arfaethedig ddiweddaraf o faterion sy'n rhan o Raglen Waith y Cabinet y mae angen eu trafod yn ystod Blwyddyn y Cyngor, 2016-17.

(Tudalennau 15 - 42)

4. ARGYMHELLION GWEITHGORAU CRAFFU: CYRFF LLYWODRAETHU YSGOLION AR DRAWS RHCT

Derbyn adroddiad Ysgrifennydd i'r Cabinet sy'n cyflwyno i'r Cabinet gasgliadau ac argymhellion Gweithgor Craffu Materion Plant a Phobl Ifainc a gynhaliodd adolygiad mewn perthynas ag effeithlonrwydd Cyrff Llywodraethu ar draws Rhondda Cynon Taf.

(Tudalennau 43 - 90)

5. TREFNIADAU CYN Y CAM CRAFFU - GWEITHLE DIGIDOL - DULLIAU GWEITHIO'N HYBLYG

Derbyn adroddiad Ysgrifennydd i'r Cabinet sy'n rhoi gwybod i Gyngorwyr am y trefniadau craffu sydd mewn lle mewn pwerthynas â Gweithle Digidol – Dulliau Gweithio'n Hyblyg.

(Tudalennau 91 - 122)

6. CLYMUCELFF/ARTS CONNECT

Derbyn adroddiad Ysgrifennydd i'r Cabinet, sy'n rhoi gwybodaeth i Aelodau am fenter ClymuCelf/Arts Connect.

(Tudalennau 123 - 128)

7. POLISIÏAU ADNODDAU DYNOL Y CYNGOR

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol sy'n rhoi gwybodaeth i'r Cabinet ynglŷn â'r adolygiad diweddar o bolisiïau Adnoddau Dynol y Cyngor.

(Tudalennau 129 - 132)

8. FFORDD AR DRAWS Y CWM, ABERPENNAR

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion y Priffyrdd a Gofal y Strydoedd sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer cyflwyno cais cynllunio am Ffordd Gyswllt ar draws y Cwm yn Aberpennar.

(Tudalennau 133 - 144)

9. ADRODDIAD BLYNYDDOL MABWYSIADU CENEDLAETHOL 2015-2016

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n cyflwyno Adroddiad Blynyddol 2015-16 y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

(Tudalennau 145 – 182)

10. FFRAMWAITH CYMORTH MABWYSIADU CENEDLAETHOL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n nodi'r newyddion diweddaraf i'r Cabinet ar y gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu polisi Cymru-gyfan cyffredin ar gyfer talu lwfansau ariannol mewn achosion mabwysiadu.

(Tudalennau 183 - 190)

11. ARGYMHELLION ADOLYGIAD TRECHU TLODI: ADRODDIAD CYNNYDD

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd sy'n rhoi'r diweddaraf i'r Cabinet ar y cynnydd ers yr adroddiad i'r Cabinet ar 24 Tachwedd 2015, sy'n nodi'r argymhellion yn dilyn adolygiad strategol o ddull y Cyngor o fynd ati mewn perthynas â threchu tlodi.

(Tudalennau 191 - 232)

12. CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n rhoi cyfle i'r Aelodau i adolygu'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) 2017-2020 - fersiwn drafft ynghyd â nodi unrhyw sylwadau cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 20 Rhagfyr 2016.

(Tudalennau 233 - 384)

13. TREFNIADAU RHEOLI CYFLAWNIAD (PERFFORMIAD)

Derbyn adroddiad y Prif Weithredwr sy'n nodi trefniadau rheoli cyflawniad y Cyngor mewn Fframwaith Rheoli Cyflawniad ffurfiol.

(Tudalennau 285 - 304)

14. SYLFAEN TRETH Y CYNGOR 2017/18

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n pennu'n ffurfiol Llinell Waelod Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth, 2018 at ddibenion pennu treth a chadarnhau'r lefel o ostyngiad sy'n berthnasol i eiddo sydd i'w ystyried yn ail gartrefi, a'r rheiny sydd heb bobl yn byw dros y tymor hir, a'r rheiny sydd heb gelfi ynddyn nhw.

(Tudalennau 305 – 310)

15. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.”

16. DILEU DYLEDION NAD OES MODD EU CASGLU

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng-Flaen sy'n nodi datganiad sefyllfa ar ddyledion nad oes modd eu casglu, ac sy'n pennu'r gofyniad i ddileu symiau penodol yn unol â meini prawf adolygu llym.

(Tudalennau 311 - 322)

17. MENTER CYLLID PREIFAT

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng-Flaen sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r cynnydd yn dilyn y penderfyniad i ddod â Chytundeb Menter Cyllid Preifat i ben yn wirfoddol mewn perthynas â'r Ganolfan Dysgu Gydol Oes, Gartholwg.

(Tudalennau 323 - 328)

18. CYNLLUN RHEOLI ASED AU CORFFORAETHOL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor sy'n rhoi i Aelodau wybodaeth am yr hynt ynglŷn â gweithredu'r cynllun gwaith sydd wedi'i gynnwys yn y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2013/18 ar gyfer Asedau Eiddo.

(Tudalennau 329 – 342)

19. MATERION BRY S

Ystyried unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet

Cylchrediad:-

Y A Morgan (Cadeirydd)
Cynghorwyr: M Webber (Is-gadeirydd)
R Bevan
A Crimmings
M. Forey
(Mrs) E. Hanagan
G. Hopkins
M Norris
(Mrs) J. Rosser

Swyddogion: Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Chris Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Paul Lucas, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Tony Wilkins, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Colin Atyeo, Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a Chaffael
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus
Esther Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes
Jane Cook, Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Chynllunio
Paul Mee, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd
Mr A.Wilkins, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol – Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethol

This page is intentionally left blank